# CYNGOR CYMUNED *LLANWINIO* COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanwinio ar nos Fawrth 18fed o Fedi 2018 am 8.00yh yn Neuadd Gymuned Llanwinio.

**PRESENNOL:** Cyng G Evans, H James, R Gallie, J Phillips, W Evans, P Walton, D Lewis a K Bowen (clerc).

**YMDDIHEURIADAU:** Cyng J Lewis (CSC)

**COFNODION:** Darllenwyd cofnodion cyfarfod 17eg o Orffennaf a derbyniwyd yn gywir.

**DATGANIADAU O DDIDDORDEB**: Dim

**MATERION YN CODI:**

Mae'r rhent tir gorddyledus wedi ei dderbyn.

Mae mainc newydd wedi ei archebu ar gyfer Heol Shôn ac mae mainc Cwmfelin Mynach yn mynd i'w cael ei thrwsio.

Derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth CSC ynglyn a pha heolydd yn y plwyf sydd i'w harwynebu.

**ADRODDIAD YR ARCHWILYDD:**

Nid yw adroddiad yr archwilydd wedi ei dderbyn eto. D'oes yna ddim materion heb eu delio efo.

**ADOLYGIAD CYNGHORAU CYMUNED A THREF:**

Gwnaeth y cynghorwyr drafod am hir gasgliadau amlinellol ac argymhellion y Panel Adolygu Annibynnol ar Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru.

**GOHEBIAETH:**

Derbyniwyd adroddiad cynigion draft oddi wrth y Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau dros Gymru ar yr adolygiad o'r trefniadau etholiadol am Sir Gaerfyrddin.

Fe wnaeth y Post Brenhinol ddanfon gwybodaeth am y cynydd mewn phost sgam.

**DERBYNIADAU:**

| | |
|---|---|
| Western Power Distribution – taliad wayleave | £210.97 |
| CSC – 2ail rhandal praesept | £2000.00 |

| | |
|---|---|
| J King – rhent tir | £175.75 |

**BILIAU:**

| | |
|---|---|
| SSE – trydan i’r neuadd gymuned 21/4/18 – 24/7/18 | £95.76 |
| Second Life Products Wales Ltd – mainc | £435.60 |
| DM Payroll Services Ltd – gweinyddu tâl 2018/19 | £61.75 |

**CYNLLUNIO:**

W/37728 – Estyniad garej efo stiwdio yn Ostashevo, Blaenawun. CYNLLUNIO LLAWN

**U.F.A.**

Derbyniwyd gwybodaeth am grantiau i cofgolofnau rhyfel yng Nghymru drwy Lywodraeth Cymru. Clerc i wneud ymholiadau pellach.

Trafodwyd lleoliad a dyddiad y cinio blynyddol. Y lleoliadau a awgrymwyd oedd yr Hen Ysgol Fwrdd, San Cler a Thafarn yr Oen, Llanboidy efo Ionawr 19 fel dyddiad posibl.

Gan fod yna ddim rhagor o fusnes fe wnaeth y Gadair ddiolch i bawb oedd wedi mynychu a datganiodd y cyfarfod ar gau.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth 20fed o Dachwedd 2018 am 8.00yh yn Neuadd Gymuned Llanwinio.**